Sul y Beibl

Darlleniad 1: 2 Pedr 1: 16-21
Darlleniad 2: Ioan 20: 30-31

Diolchwn i ti, O! Dduw, am gyfle newydd arall i blygu mewn gweddi ger dy fron. Sylweddolwn bod modd inni fedru troi atat ti a siarad â thi ar unrhyw adeg a than unrhyw amgylchiad, a diolchwn i ti am gyfrwng mor hawdd, mor syml ac mor effeithiol. Ond heddiw diolchwn am gyfle i blygu gyda'n gilydd fel cynulleidfa a chodi'n llef fel un. Diolchwn am gymdeithas yr eglwys, am ei chynhesrwydd a'i chwmnïaeth, ac fel teulu deuwn ger dy fron a siarad â thi fel hyn. A diolch dy fod yn Dduw sydd bob amser yn barod i wrando arnom, bob amser yn barod i ymateb i ni, a hynny oherwydd y berthynas arbennig sydd rhyngot a'r Eglwys. Yr wyt ti yn Dduw i ni, a ninnau yn bobl i ti, a hynny nid oherwydd unrhyw rinweddau ynom ni, ond oherwydd yr hyn yr wyt ti wedi'i wneud drosom yn dy Fab Iesu Grist, pen a sylfaen yr Eglwys.

Diolchwn dy fod yn Dduw sy'n llefaru.

Yn y dechreuad fe leferaist a daeth popeth i fod, a thrwy dy Air yr wyt wedi cynnal popeth o'r dechreuad hyd heddiw.

Yn y creu fe'n lluniaist ni ar dy ddelw dy hunan gan ein gosod mewn sefyllfa o anrhydedd ac awdurdod. Ond troesom ein cefnau arnat ac ymbellhau oddi wrthyt, ac yr wyt ti, yn dy drugaredd mawr, wedi llefaru'n gyson wrthym yn ein tywyllwch. Siaradaist wrth y tadau drwy'r proffwydi, ac yna daethost atom gan lefaru wrthym yn dy Fab, a daeth y Gair oedd yn rym yn y creu i'n plith yn rym i ddatguddio ac agor ffordd.

Heddiw, ar Sul y Beibl, diolchwn i ti am y geiriau sy'n dwyn tystiolaeth i'r 'Gair a ddaeth yn gnawd', y geiriau sy'n llefaru wrthym am dy lefaru rhyfeddol di. Gofynnwn ar i ti, trwy dy Ysbryd Glân, blannu'r awydd ynom i ddarllen, fel ein bod yn

‘gwybod y geiriau’, ac ar yr un pryd yn clywed dy lais di yn llefaru wrthym fel ein bod wedyn yn ‘adnabod y Gair’.

Diolchwn i ti am y trysor godidog hwn sydd yn ein meddiant a maddau i ni ein bod yn medru bod mor ddi-hid ohono. Maddau’r cloriau caeedig a dieithrwch y tudalennau, a dysg ni eto ei werth a’i gyfoeth.

Cofiwn wedyn am ymroddiad ac aberth y gorffennol yn yr ymdrech a fu ar y naill law i sicrhau fod y Beibl ar gael i bawb, ac ar y llaw arall i wneud yn siŵr fod pawb yn medru’i ddarllen; deilliodd hynny o’r awydd mawr i ddod â’th Air di at bob un. Dyro i ninnau’r sêl a’r brwdfrydedd i gyflwyno dy efengyl, yn fendith i’n hamser, yn falm i’n briwiau.

Gofynnwn hyn yn enw ac yn haeddiant dy Fab, Iesu Grist,
Amen.

Trefor Jones Morris